





# Pecyn Sefydlu Cyfranogiad Preswylwyr

NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU





# Croeso

## Mae Cyfranogiad Preswylwyr yn ymwneud â phreswylwyr yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn dylanwadu ar benderfyniadau am eu tai.

Mae gan ein preswylwyr lawer o'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gymryd rhan, gan fod preswylwyr yn arbenigwyr ar fyw mewn tai cymdeithasol.

Bydd y canllaw hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i breswylwyr sydd â diddordeb, neu'r rhai sy'n newydd i gyfranogiad preswylwyr.

Bydd yn eich helpu i baratoi i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gyda Tai Gogledd Cymru (TGC). Bydd hefyd yn rhoi dealltwriaeth dda o sut rydym yn gweithredu.

# Ynglŷn
# â Tai Gogledd Cymru

**Pwy ydym ni? Cawsom ein sefydlu yn 1974 felly eleni rydym yn nodi 50 mlynedd o ddarparu cartrefi gwych a gwasanaethau i dros 2,700 o gartrefi ledled gogledd Cymru.**

Rydym yn deall gwerth a phwysigrwydd cartref da. Mae darparu mwy o gartrefi newydd i'r dyfodol yn rhan hanfodol o'n gweledigaeth. Ond rydyn ni'n ymwneud â mwy na brics a morter; rydym yn arweinydd rhanbarthol yn y farchnad mewn meysydd hanfodol fel Tai â Chymorth, darparu tai a gwasanaethau i bobl fregus gan gynnwys pobl ddigartref, pobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl.

Does dim dianc rhag y ffaith ein bod ni'n boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae TGC wedi datblygu arbenigedd mewn cartrefi i Bobl Hŷn dros y blynyddoedd. Rydym yn cynnig nifer o opsiynau tai ar gyfer rhai dros 55 oed, gan gynnwys ein cynlluniau Gofal Ychwanegol arloesol.







# Beth yw cyfranogiad preswylwyr?

**Mae cyfranogiad preswylwyr yn rhywbeth sy'n berthnasol i bawb. Mae'n ffordd i chi, fel preswylwyr, rannu syniadau a chydweithio â ni fel landlord cymdeithasol er mwyn rhannu syniadau.**

Mae'n ffordd i breswylwyr gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn ystod trafodaethau am wella amodau eich cartref yn ogystal â'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i chi. Mae'n ffordd wych i ni ddysgu mwy am ein gilydd ac i breswylwyr ddarganfod sut a pham y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.

Mae eich cyfranogiad yn fuddiol, a'r syniad yw rhoi cyfle i chi rannu a darparu barn, mewnbwn, adborth a chyfrannu syniadau cadarnhaol am eich cartref, eich cymuned a'r gwasanaethau rydych chi'n eu derbyn.

Mae'n helpu'r tîm yma yng Nghymdeithas Tai Gogledd Cymru i ddysgu mwy amdanoch chi, eich anghenion a'ch blaenoriaethau. Mae hefyd yn gyfle i ni wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu a sicrhau ein bod yn gwella boddhad preswylwyr. Mae hon yn broses ddwyffordd, ac rydym yn credu ei bod yn rhan hanfodol o'n gwaith.



# Beth yw'r manteision?

**Wrth weithio'n dda, mae cyfranogiad preswylwyr yn darparu manteision clir i bob un ohonom, ein preswylwyr, ein staff a'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys:**

- Gwell darpariaeth o wasanaethau a gwell canlyniadau i breswylwyr tra'n sicrhau gwerth am arian;
- Staff a phreswylwyr yn gweithio gyda'i gilydd tuag at amcanion cyffredin;
- Preswylwyr gwybodus sydd â'r sgiliau a'r hyder i ddylanwadu ar benderfyniadau;
- Mwy o foddhad preswylwyr ynghylch eu cartref a'u cymdogaeth;
- Adnabod camau gweithredu ar gyfer gwelliannau i wasanaethau a pherfformiad a chydweithio i weithredu'r gwelliannau hynny sy'n cael eu hargymell;
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd;
- Gwell cyfathrebu rhwng staff a phreswylwyr;
- Cyfarfod â phobl eraill – preswylwyr eraill a staff.

# Mae cymaint o wahanol ffyrdd i chi gymryd rhan gyda ni:

## Panel Preswylwyr

Mae ein Panel Preswylwyr yn cyfarfod bob deufis ac mae ganddo'r cyfrifoldeb dros graffu ar ein gwasanaethau a'n perfformiad i sicrhau bod yr holl breswylwyr yn derbyn y safonau gwasanaeth uchaf.

## Fforwm Preswylwyr

Mae ein Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd gan roi cyfle i breswylwyr gael gwybodaeth, dylanwadu ar ein penderfyniadau, a chryfhau ein gwasanaethau.

Ein nod yw neilltuo pob cyfarfod i drafod pwnc penodol, gan ganiatáu i aelodau ddysgu mwy am Tai Gogledd Cymru, a darparu mewnbwn ac adborth i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein gyda'r nos ar hyn o bryd.

## Llais Preswylwyr

Cynhelir sesiynau Llais Preswylwyr hefyd bob 2 fis. Mae'n sesiwn 1 awr, maen nhw'n anffurfiol ac rydyn ni'n edrych ar faterion penodol sy'n bwysig i breswylwyr. Mae hefyd yn rhoi cyfle i breswylwyr gyfarfod â staff Tai Gogledd Cymru.

## Grŵp Ymateb Cyntaf

Grŵp o breswylwyr sydd â diddordeb mewn gweithredu fel 'darllenwyr' taflenni, ffurflenni, polisïau ac ati yw hwn. Gallwch roi adborth i ni drwy e-bost.

Byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn arolygon achlysurol, grwpiau ffocws ac yn clywed am ffyrdd newydd o gymryd rhan wrth iddynt ddatblygu.

Mae'r Grŵp Ymateb Cyntaf yn addas ar gyfer y rhai sydd eisiau dweud eu dweud a dylanwadu ar wasanaethau ond a fyddai'n well ganddynt beidio â mynychu cyfarfodydd.

# Felly, rydych wedi penderfynu ymuno â ni a chymryd rhan. Dyma awgrymiadau i'ch helpu i ddechrau arni:

## Sut i gael cyfarfod gwych

Os ydych yn mynychu cyfarfod neu grŵp ffocws (gallai hyn fod yn bersonol neu ar-lein) gofynnwn i bawb ystyried y canlynol

- Croesawu aelodau newydd a gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt
- Cyn mynychu, paratoi unrhyw bapurau ac agenda
- Gwnewch eich gorau i gyrraedd mewn pryd
- Daliwch ati i drafod y pwnc a chyfrannu'n unol â hynny
- Dylech drin pawb yn deg, a pharchu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy beidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson
- Dylech barchu hawl pobl eraill i siarad heb ymyrraeth a chaniatáu i bawb gael cyfle i siarad
- Parchwch farn a barn pobl eraill a derbyn efallai na fydd y rhain bob amser yr un fath â'ch barn chi
- Peidiwch â cheisio codi materion neu gwynion unigol, oni bai bod amser yn cael ei neilltuo'n benodol at y diben hwn

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn TGC, rydym yn credu'n gryf fod pawb yn haeddu triniaeth deg a chyfartal waeth beth fo'u cefndir, hil, ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd, neu unrhyw nodwedd arall. Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol a chefnogol i'n holl breswylwyr, staff, partneriaid a rhanddeiliaid.

Wrth gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cynnwys preswylwyr TGC (e.e. cyfarfodydd, grwpiau ffocws, gweithdai) mae disgwyl i chi wneud y canlynol:

- peidio gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid unigolion eraill oherwydd bod ganddyn nhw unrhyw nodweddion gwarchodedig, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010;
- peidio annog nac yn esgusodi ymddygiad o'r fath mewn eraill;
- cynnal a gweithredu gwerthoedd TGC yn gadarnhaol
- adnabod a gwerthfawrogi gwahaniaeth, trin eich gilydd yn deg a chyda pharch ac urddas ac annog pawb i gymryd rhan

# Cyfarfod â'r timau

**Wrth gymryd rhan yn TGC byddwch yn clywed mwy am y gwasanaethau a ddarperir gan TGC ac yn cyfarfod â staff o bob rhan o'r sefydliad.**



## Tîm Profiad y Cwsmer

Mae'r Tîm Profiad y Cwsmer yn gweithio ar draws TGC i wella boddhad ac ymgysylltiad preswylwyr a'i nod yw sicrhau bod llais preswylwyr yn dylanwadu ar y busnes. Mae'r tîm yn arwain ar gyfathrebu mewnol ac allanol ar amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau a phrosiectau cynhwysiant digidol.



## Tîm Cymdogaeth

Mae'r Tîm Cymdogaeth yn cynorthwyo ac yn delio ag ymholiadau ar reoli tenantiaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gosodiadau. Mae'r tîm wedi arwain ar ddatblygu cynlluniau cymdogaeth sy'n nodi ein hymrwymiadau gwasanaeth i chi a'ch ardal leol.

## Tai â Chymorth

Rydym yn darparu dros 300 o unedau tai â chymorth i'r rhai sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl sy'n profi digartrefedd, dibyniaeth, problemau iechyd meddwl; rydym hefyd yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu a phobl ifanc sy'n gadael gofal.

Bydd pawb sy'n manteisio ar Tai â Chymorth yn derbyn cymorth un i un ar faterion fel cael swyddi ac addysg neu wasanaethau iechyd, ac yn dysgu sgiliau bywyd – fel coginio a chyllidebu – a fydd yn eu harwain at gynnal tenantiaethau annibynnol llwyddiannus pan fyddan nhw'n symud i'w heiddo eu hunain.





## Tîm Incwm

Mae'r tîm sy'n delio ag ymholiadau rhent wrth law i roi cymorth a chyngor, ar unrhyw beth o gyllidebu, budd-daliadau a sut i gael y pris grau gan y cyfleustodau.

## Tîm Datblygu

Mae'r tîm yn gyfrifol am adeiladu cartrefi newydd ar draws gogledd Cymru.



## Tîm Gwaith Trwsio

Mae gennym dîm gwaith trwsio mewnol. Mae'r tîm yn cynnwys plymwyr, trydanwyr a gweithwyr aml-grefft.



## Rheoli Asedau

Mae'r tîm yn cynnwys Syrfewyr sy'n gofalu am ein holl asedau, gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio (e.e. ceginau ac ystafelloedd ymolchi), ac addasiadau i'r anabl.



## Cribiniau ac Ystolion

Cribiniau ac Ystolion yw ein tîm cynnal a chadw tiroedd mewnol. Maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau garddio, cynnal a chadw tiroedd, a cynnal a chadw eiddo i breswylwyr.



## Gwasanaethau Glanhau a Gofalu

Mae'r tîm mewnol hwn yn darparu gwasanaethau glanhau mewn ardaloedd cymunedol ac yn ein cymunedau.





# Termau Geirfa / Defnyddiol

## Wrth fynychu cyfarfodydd a chymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn TGC efallai y byddwch yn clywed rhai termau sy'n benodol i dai cymdeithasol nad ydych wedi'u clywed o'r blaen. Rydym am wneud cymryd rhan yn hawdd a hwylus, felly peidiwch byth â bod ofn gofyn cwestiwn neu ofyn am esboniad ar unrhyw bynciau neu eiriau a thermau sy'n cael eu defnyddio.

## Dyma rai o'r termau mwyaf cyffredin y gallech eu clywed:

### TPAS Cymru

Fel y trafodwyd ar dudalen 2 mae TGC yn aelod o TPAS. Mae TPAS Cymru yn cefnogi preswylwyr a landlordiaid cymdeithasol ac yn gweithio i lunio gwasanaethau tai yng Nghymru. Maen nhw hefyd yn rhannu arfer da ac yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i breswylwyr a staff.

### SATC

Mae'r term hwn yn cyfeirio at Safon Ansawdd Tai Cymru. Crëwyd SATC i sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yn cyrraedd safon gyffredin waeth pwy yw'r landlord.

Canllaw hawdd ei ddeall ar SATC sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-fersiwn-hawdd-ei-deall

### Arolwg Trafodion

Dyma'r arolwg testun rydych chi'n ei dderbyn ar ôl i chi dderbyn gwasanaeth gan TGC, er enghraifft os ydych chi wedi cael gwaith trwsio.




### Arolwg STAR

Mae hyn yn golygu'r Arolwg o Denantiaid a Phreswylwyr, ac mae'n fframwaith sydd wedi'i gynllunio i landlordiaid cymdeithasol gasglu adborth boddhad preswylwyr mewn ffordd gyson, fesuradwy. Rydym yn cynnal yr arolwg bob blwyddyn ac mae'n seiliedig ar arolwg safonol gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio gan landlordiaid eraill ledled y wlad i fesur boddhad ac er mwyn iddyn nhw allu cymharu â'i gilydd.

### Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr

Fel preswylydd sy'n cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau byddwch yn clywed llawer am y Strategaeth.

### Adroddiad Perfformiad

Dyma adroddiad a gyflwynir i'r Panel Preswylwyr bob deufis. Mae'n rhoi diweddariadau a sylwebaeth i'r panel gan reolwyr ynghylch perfformiad gwahanol wasanaethau a ddarperir gan TGC.

### YGG

Os yw Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd efallai y byddwch yn ei glywed yn cael ei gyfeirio ato fel YGG (ASB).

### UDA

Yn ystod cyfarfod efallai y byddwch yn clywed y acronym UDA (SLT yn Saesneg) gan staff. Mae hyn yn cyfeirio at ein Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

# Gofynion rheoleiddio

**Mae Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliad clir ar gymdeithasau tai i ddangos bod preswylwyr yn cymryd rhan wrth lunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau. Fel pob cymdeithas dai yn y wlad, rydym yn cael ein rheoleiddio a gofynnir i ni ddarparu tystiolaeth o sut rydym yn rhoi cyfleoedd i breswylwyr ddylanwadu ar benderfyniadau.**

Byddwch yn clywed llawer am y sefydliad TPAS Cymru pan fyddwch yn ymwneud â ni yn TGC. Mae ganddo dîm wedi'i leoli yn ne a gogledd y wlad.

Mae TPAS Cymru yn cefnogi preswylwyr a landlordiaid cymdeithasol ac yn gweithio i lunio gwasanaethau tai yng Nghymru. Maent hefyd yn rhannu arfer da ac yn d arparu hyfforddiant a chefnogaeth i breswylwyr a staff.

Bydd cyfleoedd i chi fynychu hyfforddiant a digwyddiadau a drefnir gan TPAS Cymru. Gan fod TGC yn aelod o TPAS bydd y cyfleoedd hyn yn rhad ac am ddim i breswylwyr sy'n cymryd rhan.

Mae'n werth edrych ar eu gwefan

**https://www.tpas.cymru/**





NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU

## Iwan Evans

**Cydlynydd Cyfranogiad Preswylwyr.**

Mae wedi bod yn gweithio yn TGC ers tua 10 mlynedd. Ei waith yw sicrhau ein bod yn cynnig amrywiaeth o opsiynau i'n preswylwyr gymryd rhan a lleisio barn ar wasanaethau. Mae Iwan yn datblygu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Preswylwyr. Mae hefyd yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer preswylwyr.

01492 563232

iwan.evans@nwha.org.uk.

01492 572727

customerservices@nwha.org.uk

North-Wales-Housing

@northwalesha

QED QUALITY, EQUALITY, DIVERSITY

disability confident EMPLOYER

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur